

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Sirol Cegidfa

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Cegidfa yn ysgol hapus lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal. Mae staff yn diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda. Maent yn delio â phryderon disgyblion yn ystyriol, yn briodol ac mewn modd amserol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol fel dysgwyr ac yn datblygu i fod yn unigolion hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau cyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol da. Maent yn ymgynefino â bywyd ysgol yn gyflym ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'i gilydd ac oedolion. Maent yn dangos balchder diffuant yn eu gwaith ac yn garedig a gofalgar iawn at ei gilydd. Mae disgyblion hŷn yn arbennig yn gofalu am y disgyblion iau ac yn cynnig cyfeillgarwch a chefnogaeth iddynt. O roi'r cyfle iddynt, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain ag aeddfedrwydd a diwydrwydd.

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar iawn yn dechrau sefydlu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol. Lles disgyblion sydd wrth wraidd y weledigaeth hon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon da i gyd-destun lleol yr ysgol a'i chymuned nac yn rhoi sylw priodol i ddiddordebau'r disgyblion wrth iddynt gynllunio'u cwricwlwm. Nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud. Nid yw athrawon bob amser yn darparu'r lefel gywir o her i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu potensial.

Nid yw dull arweinwyr o fonitro darpariaeth yr ysgol yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd disgyblion ac nid yw llywodraethwyr yn cymryd rôl ddigon gweithgar yn y broses fonitro. Er bod arweinwyr yn nodi meysydd addas i'w gwella yng ngwaith yr ysgol, nid yw eu camau gweithredu bob amser yn arwain at welliannau digonol mewn deilliannau ar gyfer disgyblion.

# Argymhellion

A1 Cryfhau'r trefniadau i fonitro defnydd disgyblion o ofodau cymunedol a rennir

A2 Sicrhau bod yr holl arweinwyr, yn cynnwys y corff llywodraethol, yn monitro a gwerthuso dysgu ac addysgu yn drylwyr i sicrhau gwelliant

A3 Mynd i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gyda ffocws penodol ar sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu herio'n effeithiol

A4 Datblygu cwricwlwm yr ysgol i gynnwys profiadau dysgu perthnasol a dilys sy'n diwallu anghenion dysgwyr

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Cegidfa |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 179 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 129 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 8.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/10/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 19/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/11/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.